Lesley Griffiths AC/AM
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig
Minister for Environment, Energy and Rural Affairs

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-05-815
Ein cyf/Our ref LG/07398/19

Janet Finch-Saunders AC
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

government.committee.business@llyw.cymru

19 Tachwedd 2019

Annwyl Janet

Diolch ichi am eich llythyrau dyddiedig 31 Ebrill a 6 Tachwedd ynglŷn â Deiseb P-05-815: Rheoli'r Diwydiant Dofednod Dwys sy'n Ehangu'n Gyflym yng Nghymru.

Y nod wrth sefydlu'r Gweithgor Amaethyddiaeth Ddwys – Cynllunio Gwlad a Thref yw nodi amryfal rolau a chyfrifoldebau'r holl gyrff sy'n gysylltiedig â'r broses gynllunio sy'n berthnasol i amaethyddiaeth ddwys, ac edrych ar y cyngor technegol a'r dystiolaeth wyddonol sy'n gysylltiedig â chaniatâd cynllunio. Bydd y gwaith hwn yn cynnwys edrych ar effeithiau amaethyddiaeth ddwys, ar fioamrywiaeth a'r newid yn yr hinsawdd. Un o orchwylion allweddol y Gweithgor fydd paratoi Nodyn Cyngor Technegol (TAN) er mwyn helpu i wella ansawdd penderfyniadau cynllunio, er budd y diwydiant a chymunedau lleol.

Mae ffermydd dofednod yn dod o dan yr un rheoliadau cynllunio â datblygiadau eraill. Mae penderfynu ar geisiadau cynllunio yn unol â'u Cynllun Datblygu Lleol yn rhoi'r cyfle i awdurdodau cynllunio lleol roi ystyriaeth gynhwysfawr i effeithiau cronnol unedau dofednod sy'n bodoli eisoes. Mae'r effeithiau hynny'n cynnwys sŵn, arogleuon, llygredd ac iechyd. Y llynedd, anfonodd y Prif Gynllunydd lythyr at yr awdurdodau cynllunio lleol yn eu hatgoffa i ystyried yr effeithiau cronnol sy'n deillio o leoli datblygiadau tebyg yn agos at ei gilydd. Roedd yn cynghori am yr angen i fod yn arbennig o ofalus wrth ystyried ceisiadau cynllunio a fyddai'n lleoli unedau da byw ac ardaloedd preswyl neu ardaloedd amgylcheddol sensitif yn agos at ei gilydd.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae ffermydd dofednod yn cael eu rheoleiddio hefyd o dan y Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol gan Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) er mwyn gwneud yn siŵr nad ydynt yn effeithio ar yr amgylchedd.

Ym mis Tachwedd 2018, cyhoeddais ddatganiad yn amlinellu fy mwriad i gyflwyno rheoliadau ar gyfer Cymru gyfan er mwyn mynd i'r afael â llygredd a achosir gan amaethyddiaeth. Rwyf wedi bod yn gweithio'n agos ag Is-grŵp Rheoli Tir Cymru i sicrhau'r cydbwysedd cywir o gamau rheoleiddiol, mentrau gwirfoddol a buddsoddiad i alluogi'r diwydiant i fynd i'r afael â llygredd. Byddaf yn parhau i weithio gyda'r holl randdeiliaid i ddatblygu cyfres o gamau y mae angen eu cymryd er mwyn mynd i'r afael â llygredd amaethyddol.

Datblygwyd y rheoliadau arfaethedig er mwyn lleihau'r maethynnau sy'n cael eu gollwng i'r amgylchedd gan amaethyddiaeth ac er mwyn diogelu ansawdd dŵr ac aer. Drwy gyflwyno rheoliadau sylfaenol a fydd yn gymwys i bob daliad amaethyddol yng Nghymru yn hytrach na thargedu ardaloedd penodol, bydd modd sicrhau gwell dealltwriaeth o'r gofynion ac atal y broblem rhag cael ei symud i rywle arall, a bydd yn rhoi rhagor o allu i'r rheoleiddiwr gymryd camau gorfodi.

O dan Ffyniant i Bawb, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i greu cymunedau iachach a gwell amgylcheddau. Mae gan aer glân rôl ganolog i'w chwarae o ran creu'r amodau cywir ar gyfer gwell iechyd a lles, a mwy o weithgarwch corfforol yng Nghymru. Adlewyrchir hynny yn yr ymrwymiad i leihau allyriadau a sicrhau gwelliannau hanfodol i ansawdd aer drwy fesurau cynllunio, seilwaith, rheoleiddio, a negeseuon iechyd.

Bydd Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar fersiwn ddrafft o'r Cynllun Aer Glân ym mis Rhagfyr eleni, gyda golwg ar gyhoeddi'r Cynllun terfynol yng ngwanwyn 2020. Bydd y Cynllun yn rhoi sylw i'r heriau ac yn cynnwys ymrwymiadau sydd eisoes yn bodoli a chamau newydd i'w cymryd ar draws y Llywodraeth i wella ansawdd aer drwy bolisïau, rheoleiddio a deddfwriaeth newydd. Y Cam hwn hefyd fydd y cam cyntaf at Ddeddf Aer Glân i Gymru a byddwn yn croesawu'ch barn am ein Cynllun trawslywodraethol.

Rydw i am weld diwydiant dofednod ffyniannus a chadarn sy'n hyrwyddo llesiant Cymru heddiw ac yn y dyfodol. Dim ond drwy ddiogelu lles anifeiliaid a lleihau effaith y diwydiant ar yr amgylchedd y gallwn gyrraedd y nod hwnnw.

Yn gywir

Lesley

**Lesley Griffiths AC/AM**
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig
Minister for Environment, Energy and Rural Affairs